Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Sut rydym yn gwneud yng Nghymru?

## Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd am Iechyd a Llesiant yn ystod Mesurau Coronafeirws

### Canolbwyntio ar ethnigrwydd

Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fudsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant, Iechyd Cyhoeddus Cymru

18 - 24 Mai 2020

# Ethnigrwydd

Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod coronafeirws a'r cyfyngiadau symud ar hyn o bryd yn cael mwy o effaith ar iechyd meddwl a llesiant pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy'n byw yng Nghymru. Mae traean o ymatebwyr BAME yn nodi eu bod yn teimlo'n ynysig ac mae 1 o bob 5 yn poeni llawer am eu harian.

Fodd bynnag, mae ymatebwyr BAME hefyd yn gwneud mwy o weddïo a gweithgareddau ymwybyddiaeth ofalgar, a all gynnig ffordd gadarnhaol o ymdopi â straen presennol. Drwy gydol yr adroddiad, rydym yn defnyddio'r term 'gwyn' i gyfeirio at y rhai nad ydynt yn y grŵp BAME.

Ni ddatgelodd yr arolwg unrhyw wahaniaeth rhwng trigolion BAME a thrigolion gwyn yng Nghymru o ran:

- Newidiadau i gysylltu ag eraill (e.e. siarad mwy â ffrindiau a theulu; cyfathrebu mwy â chymdogion; gwneud mwy o ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol
- Newidiadau i ymddygiad iechyd fel gweithgarwch corfforol neu fwyta'n iach;
- Newidiadau i smygu.

# Yn ystod cyfyngiadau symud y Coronafeirws yng Nghymru...

## Mae pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy'n byw yng Nghymru yn fwy tebygol o fod yn:

| | BAME | Gwyn |
|---|---|---|
| Teimlo’n bryderus iawn | 30% | 20% |
| Teimlo'n ynysig | 33% | 22% |
| Poeni llawer am eu hiechyd meddwl | 28% | 19% |
| Poeni llawer am golli eu swydd neu fethu dod o hyd i swydd | 17% | 11% |
| Poeni llawer am arian | 22% | 15% |
| Treulio mwy o amser yn gwylio'r teledu/Netflix neu chwarae gemau fideo~ | 55% | 42% |
| Gweddïo mwy~ | 28% | 16% |
| Gwneud mwy o weithgareddau ymwybyddiaeth ofalgar~ | 19% | 7% |
| Yfed mwy o alcohol~+* | 28% | 16% |

## Mae trigolion gwyn yng Nghymru yn fwy tebygol o fod yn:

Yn bryderus iawn am les eu plant#* - 61%

(BAME: 53%)



Treulio mwy o amser yn yr awyr agored - 34%

(BAME: 22%)



Mae'r holl ffigurau wedi'u haddasu ar gyfer oed, rhywedd, wythnos ac amddifadedd; ~Mesurwyd wythnosau 2-5 yn unig; + Ymhlith yfwyr yn unig; #Os y rhai sydd â phlant ar yr aelwyd; * Nid yw'r gwahaniaeth yn ystadegol arwyddocaol.

# Pam canolbwyntio ar Ethnigrwydd?

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod pobl yn y DU o gefndiroedd pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) yn wynebu mwy o risg o'r coronafeirws a chymhlethdodau iechyd difrifol o'r clefyd. Nid yw'r rhesymau dros hyn wedi'u deall yn llawn eto.

Mae Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) y DU wedi comisiynu adolygiad ffurfiol gan Iechyd Cyhoeddus Lloegr a GIG Lloegr i'r lefel ymddangosiadol uwch o farwolaethau COVID-19 ymhlith pobl o gefndiroedd BAME, a bydd Cymru yn cyfrannu at hyn.

Gweler: https://gov.wales/written-statement-covid-19-and-bame-communities.

Er gwaethaf effaith anghymesur coronafeirws ar drigolion BAME yng Nghymru, prin yw'r wybodaeth am sut y mae cymunedau gwahanol yn ymdopi â'r cyfyngiadau symud a sut y gellir effeithio ar eu llesiant yn ystod y cyfnod anodd hwn.


Gall canlyniadau yn yr adroddiad arbennig hwn fod ychydig yn wahanol i'r canrannau a adroddwyd yn adroddiadau wythnosol “Sut ydym ni yng Nghymru?” oherwydd bod y ffigurau yn rhai cyfartalog dros hyd at chwe wythnos a chanrannau wedi'u haddasu i alluogi cymariaethau oed, rhywedd ac amddifadedd wedi'u haddasu rhwng ymatebwyr gwyn a BAME.

| | BAME | Gwyn |
|---|---|---|
| Yn credu bod ganddynt y coronafeirws neu wedi ei gael* | 14% | 11% |
| Yn poeni llawer am gael y coronafeirws*~ | 23% | 21% |
| Yn poeni llawer am fynd yn ddifrifol wael gyda'r coronafeirws* | 28% | 25% |

Yn ôl yr arolwg, mae cyfran y bobl sy'n profi coronafeirws yn debyg iawn ar draws cymunedau BAME a gwyn. Mae grwpiau hefyd yn poeni i'r un graddau am gael y feirws a mynd yn ddifrifol wael.

Canrannau wedi'u haddasu ar gyfer oed, rhywedd, wythnos ac amddifadedd.

*Nid yw'r gwahaniaethau yn ystadegol arwyddocaol;
~Heb gynnwys y rhai sy'n credu eu bod wedi cael y feirws eisoes.





Mae ymatebwyr BAME yn fwy tebygol o fod yn teimlo'n bryderus iawn neu'n ynysig, gyda thros chwarter yn profi lefelau uchel iawn o bryder am eu hiechyd meddwl.


Canrannau wedi'u haddasu ar gyfer oed, rhywedd, wythnos ac amddifadedd.

# Iechyd meddwl a llesiant - pryderon presennol

## Mae ymatebwyr BAME yn fwy tebygol o fod yn poeni am gyflogaeth ac arian...





## ... Tra bod ymatebwyr gwyn yn fwy tebygol o riportio pryderon am les eu plant #






Canrannau wedi'u haddasu ar gyfer oed, rhywedd, wythnos ac amddifadedd.

#Os y rhai sydd â phlant ar yr aelwyd; * Gwahaniaethau nad ydynt yn ystadegol arwyddocaol.

Mae cyfran fwy o ymatebwyr BAME yn nodi cynnydd mewn gweithgareddau personol fel gweddïo ac ymwybyddiaeth ofalgar. Mae ymatebwyr gwyn yn fwy tebygol o fod yn cynyddu'r amser y maent yn ei dreulio yn yr awyr agored.




~ # Mae ymatebwyr BAME sy'n yfed yn fwy tebygol nag yfwyr gwyn o fod wedi cynyddu faint o alcohol maen nhw'n ei yfed *.

Canrannau wedi'u haddasu ar gyfer oed, rhywedd, wythnos ac amddifadedd

~Mesurwyd ar wythnosau 2-5 yn unig; *Nid yw'r gwahaniaethau yn ystadegol arwyddocaol.

# Dulliau a dadansoddiadau

## Yr arolwg

Arolwg ffôn cenedlaethol a gynhelir gydag oedolion (>18 oed) sy'n byw yng Nghymru ar hyn o bryd.

Dechreuwyd casglu data ar ddechrau **mis Ebrill 2020** ac mae'n parhau.

Hyd yma, mae dros 3,600 o bobl wedi dweud wrthym sut y mae'r feirws a'r cyfyngiadau symud yn effeithio arnynt.

## Ein dadansoddiadau

Mae'r dadansoddiadau hyn yn ystyried sut y gall profiadau o'r coronafeirws fod yn wahanol ar gyfer gwahanol grwpiau mewn cymdeithas. Er yr ystyrir bod yr arolwg cyffredinol yn cynrychioli poblogaeth Cymru[1], yn sgil nifer bach yr ymatebwyr a nododd eu bod yn rhan o grwpiau ethnig gwahanol, mae'r categorïau hunanadrodd canlynol wedi'u cyfuno i greu grŵp BAME sy'n ddigon mawr ar gyfer dadansoddiadau: Asiaidd/Asiaidd Prydeinig; Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig; Cymysg/grwpiau Aml-ethnig; Grŵp ethnig arall (cyfanswm n=111; 3.1% o'r sampl). Cydnabyddir ei bod yn debygol bod gwahaniaethau o ran profiadau ac effeithiau coronafeirws a mesurau cyfyngiadau symud rhwng y grwpiau ethnig gwahanol hyn, a fyddai'n faes pwysig ar gyfer astudiaeth bellach ymhlith samplau mwy/mwy amrywiol lle y bo'n bosibl.

Defnyddiwyd **swyddogaeth model llinol cyffredinol** i archwilio perthnasoedd annibynnol rhwng canlyniadau o ddiddordeb ac ethnigrwydd, gan addasu ar gyfer oed, rhywedd ac amddifadedd.

Cywirwyd y dadansoddiadau hefyd ar gyfer amser (h.y. wythnos yr arolwg). Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar dueddiadau dros amser ac maent yn cael eu hadrodd mewn mannau eraill.

## Canfyddiadau

Cyflwynir gwahaniaethau allweddol ar gyfer trigolion BAME a gwyn yng Nghymru a holwyd. Oni nodir, mae'r gwahaniaethau yn ystadegol arwyddocaol ar $p<.05$. Daw'r canfyddiadau o ddata a gasglwyd o wythnosau 2 i 7 yr arolwg, oni nodir yn wahanol mewn troednodiadau.

[1]Yn ôl amcangyfrifon 2017, ethnigrwydd gwyn yw 95.6% o boblogaeth Cymru – gweler https://statswales.gov.wales/Catalogue/Equality-and- Diversity/Ethnicity/ethnicity-by-age-sex

# Ymholiadau


### Arweinydd yr adroddiad

Katie Hardcastle

### Data a Dadansoddeg

Yr Athro Karen Hughes

### Datblygu'r Arolwg

Yr Athro Mark A Bellis

**E-bost**
Ymholiadau.cyffredinol@wales.nhs.uk

**Ffôn**
02920 227744

**Wê**
icc.gig.cymru

**Polisi a Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fudsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant**

Llawr 5, Iechyd Cyhoeddus Cymru,
2 Capital Quarter,
Stryd Tyndall,
Caerdydd, CF10 4BZ


## Sut wyt ti?

Am wybodaeth cyffredinol ar sut i edrych ar ôl eich hunan, eich ffrindiau a'ch teulu yn ystod cyfyngiadau coronafeirws ymwelwch â:

**icc.gig.cymru/sut-wyt-ti**

